# MENTRO
## Rhagfyr 2018 – Mawrth 2019

mentro venture
CEFNOGI MENTRAU AR Y CYD
SUPPORTING JOINT VENTURES

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

Mae Mentro wedi'i lunio i baru ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n barod i gamu'n ôl o'r diwydiant gyda newydd ddyfodiaid sy'n chwilio am gyfle i gychwyn ffermio yn annibynnol. Mae'n rhoi arweiniad i bobl ar y ddwy ochr trwy'r camau allweddol sydd angen eu cymryd i ganfod partner busnes posib. Mae pecyn integredig sy'n cynnwys hyfforddiant, mentora, cyngor arbenigol a chefnogaeth busnes yn darparu'r wybodaeth a'r hyder angenrheidiol i gynorthwyo'r rhai sy'n cymryd rhan i gyflawni eu hamcanion.


Gallai'r camau allweddol ar y **daith Mentro** gynnwys y canlynol...




## Sgôr RAG

Coch / Melyn / Gwyrdd

| Gwyrdd | Prosiect a digwyddiadau yn cyrraedd y targed |
|---|---|




**461** DATGANIAD DIDDORDEB WEDI'U CYFLWYNO ERS DECHRAU'R

**203** O GYFRANOGWYR GWEITHREDOL





**7047** ERW O DIR WEDI COFRESTRU


**130** 100 O GEISWYR WEDIYMUNO'N LLAWN
30 I DDOD


**34** 17 O DDARPARWYR WEDIYMUNO'N LLAWN
17 I DDOD


**86** WEDI CANFOD PARTNER




**207** ERW
MAINT CYFFREDIN Y FFERMYDD




- **Ceiswyr** (wedi ymuno'n llawn yn unig)
- **Darparwyr** (wedi ymuno'n llawn yn unig)
- **Parau** (ar waith ac wedi cwblhau)



### Astudiaeth Achos

## Dyfodol disglair i bâr o ffermwyr o Orllewin Cymru a'u partner busnes newydd... diolch i gyfarfod â hen ffrind ysgol ar hap a rhaglen Mentro Cyswllt Ffermio

Ar ôl mynychu cymhorthfa gynllunio'r llynedd, roedd Gareth a Pam Stephens eisoes yn gyfarwydd â'r rhaglen Mentro. Unwaith iddynt sylweddoli eu bod wedi canfod y partner busnes perffaith, sef Aled, roedden nhw'n gwybod y byddai menter ar y cyd yn ateb gwell na chyflogi stocmon, felly roedden nhw'n barod i gadarnhau'r trefniant yn ffurfiol.

Deunaw mis yn ddiweddarach, mae Gareth a Pam wrth eu bodd gyda chanlyniad y fenter newydd ar y cyd, sydd wedi rhoi cyfle iddyn nhw gamu'n ôl o'u dyletswyddau dydd i ddydd yn rhedeg y fferm, ond gan barhau i fod yn rhan o'r fenter.

"Nid oeddem eisiau gwerthu na rhentu'r fferm, ond mae cyflwyno ffermwr ifanc sy'n weithiwr caled iawn, yn wybodus ac yn haeddu help llaw wedi bod yn werth chweil.

"Mae gennym ni barch mawr i Aled. Mae wedi dod â chymaint i'r bartneriaeth ac rydym ni bob amser i'w weld yn rhannu'r un meddylfryd ynglŷn â sut i reoli a datblygu'r busnes."

Cliciwch yma i ddarllen mwy a gwylio'r fideo.



**Rhai o'r cyfleoedd a hysbysebwyd yn ystod y chwartef diwethaf:**

### Astudiaeth Achos

## Torri cwys newydd... Ffermwr o Sir Benfro sydd wedi arallgyfeirio i dyfu cnydau gwraidd ar raddfa cae agored yn edrych am bartner busnes newydd!

Mae Romeo Sarra yn ffermwr ail genhedlaeth a anwyd yn Sir Benfro, a phenderfynodd flynyddoedd yn ôl nad oedd yn bwriadu ymroi ei holl fywyd gwaith i odro. Yn raddol, dechreuodd leihau'r niferoedd o dda byw a rhoi'r gorau i odro gan ddechrau arallgyfeirio i arddwriaeth cae agored.

Dros y 24 blynedd diwethaf mae Mr Sarra a'i deulu wedi bod yn cynhyrchu llysiau organig ar raddfa cae agored ac er bod y busnes yn ffynnu, mae bellach yn edrych ymlaen at leihau ei gyfraniad dyddiol i'r fenter. Wrth edrych at y dyfodol, trodd at raglen Mentro Cyswllt Ffermio i'w helpu i ganfod partner busnes ifanc newydd ar gyfer Fferm Organig Peepout. Mae'n gobeithio canfod unigolyn a fydd yn hapus i weithio ochr yn ochr ag ef ar gyfnod prawf i ddechrau, gyda'r gobaith y bydd yr unigolyn yn cymryd yr awenau rhyw ddiwrnod. Mae Mentro yn paru ffermwyr a thirfeddianwyr sydd am gamu yn ôl o'r diwydiant gyda'r rheiny sy'n edrych am gael troed yn y drws neu gyfle busnes newydd.

Cliciwch yma i ddarllen mwy.

## Rhai o uchafbwyntiau ein gweithgaredd ar lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol:

Facebook 05/12/2018

Menter ar y Cyd

Cyfle cyffrous ar gyfer ffermwr ifanc brwdfrydig

### Cyfle Menter a y Cyd yn Felingwm

***Joint Veture opportunity at Felingwn***

- 33Ha ar gael ar gyfer ffermwr ifanc hyblyg a brwdfrydig
- Fferm bîff a defaid gyda peth da byw ar hyn o bryd
- *33Ha available for flexible enthusiastic young entrant*
- *Currently a low stocked beef and sheep farm*

**FARMING** connect
cyswllt **FFERMIO**
**08456 000 813**

I fynegi diddordeb, cysylltwch a / *To express an interest contact*

**Delyth Jones**

01970 631422

delyth.jones@menterabusnes.com

erbyn / *by* 11/12/2018

mentro venture

**CEFNOGI** MENTRAU AR Y CYD
**SUPPORTING** JOINT VENTURES

**Pobl a Gyrhaeddwyd: 2,734**
**Ymgysylltiadau: 88**
**Hoffi, sylwadau a rhannu: 13**

Yn dilyn y neges hon, mynegodd tri unigolyn ddiddordeb yn y cyfle sydd wedi arwain at un ohonynt yn ymuno â'r rhaglen Mentro trwy gwblhau proffil. Aeth yr unigolyn a ymunodd â'r rhaglen ymlaen i ymholi am y cyfleoedd eraill ar gael ac mae nawr mewn cysylltiad â darparwr arall.